

## **MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL DIWYGIEDIG**

### **Y BIL CYFIAWNDER TROSEDDOL A'R LLYSOEDD**

Mae'r Memorandwm hwn yn diwygio'r Memorandwm a osodwyd ar 15 Mai (LCM-LD9756) (y "Memorandwm blaenorol"). Mae'n wahanol i'r Memorandwm blaenorol oherwydd iddo gael ei ddiwygio er mwyn rhoi ystyriaeth i'r diwygiadau i'r Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd (y "Bil") a gyflwynwyd ar 12 Mehefin gan y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder, y Gwir Anrhydeddus Chris Grayling, AS ac a gyhoeddwyd yn yr Hysbysiadau o Ddiwygiadau a wnaed hyd at ddydd Gwener 13 Mehefin 2014, ac ar y diwrnod hwnnw.

Mae'r diwygiadau hyn o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol ac maent yn ymwneud â'r weithdrefn i'w dilyn wrth ddwyn heriau yn yr Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau yn ymwneud â dyfarnu neu wrthod dyfarnu costau mewn cysylltiad â cheisiadau ac apelau penodedig a wneir o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.3(v), mae'r Memorandwm diwygiedig hwn yn nodi sut a pham y mae'r Memorandwm newydd yn wahanol i'r un blaenorol.

Diwygiwyd paragraff 5, ac ychwanegwyd paragraff 5A newydd, a hynny er mwyn esbonio'r diwygio a fu ar y Bil ers i'r Memorandwm blaenorol gael ei osod, a arweiniodd at dynnu'n ôl gymal ac Atodlen a oedd gynt yn berthnasol, ac at fewnosod cymal ac Atodlen newydd.

Mae manylion y diwygiadau perthnasol nad ymdriniwyd â hwy yn y Memorandwm blaenorol i'w gweld ym mharagraffau 5B a 14A-14D newydd isod.

Mewnosodir paragraffau 6A ac 8A newydd er mwyn disgrifio darpariaethau y mae bwriad bellach i'w diwygio, ond nad oedd bwriad o'r fath ar yr adeg y gosodwyd y Memorandwm blaenorol.

Diwygiwyd paragraffau 12 a 15 er mwyn sicrhau bod y croesgyfeiriadau at baragraffau eraill yn y Memorandwm hwn yn adlewyrchu'r diwygiadau diweddaraf.

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod, ac y caniateir i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd un o Filiau Senedd y Deyrnas Unedig yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu'n addasu'r cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw.

2. Cafodd y Bil ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Chwefror 2014. Mae'r Bil ar gael yma:

[Bill documents — Criminal Justice and Courts Bill 2013-14 to 2014-15 — UK Parliament](#)

### **Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi**

3. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Amcanion polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynglŷn â'r Bil yw gwneud darpariaeth ynghylch sut yr ymdrinnir â throseddwyr cyn cael eu collfarnu ac wedyn; diwygio trosedd meddu ar ddelweddau pornograffig eithafol; gwneud darpariaeth ynghylch achosion a phwerau llysoedd a thribiwnlysoedd; gwneud darpariaethau ynghylch adolygiadau barnwrol; ac at ddibenion cysylltiedig.
4. Gellir crynhoi darpariaethau allweddol y Bil fel a ganlyn:
  - Mae Rhan 1 ac Atodlenni 1 a 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfiawnder troseddol, gan gynnwys darpariaeth ynghylch dedfrydu a rhyddhau troseddwyr a'u galw yn ôl ac ynghylch monitro electronig ar droseddwyr a ryddhawyd ar drwydded, ac ynghylch rhoi rhybuddiadau. Mae Rhan 1 hefyd yn cynnwys darpariaeth ynglŷn â throsedd meddu ar bornograffi eithafol.
  - Mae Rhan 2 ac Atodlenni 3 a 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch cadw troseddwyr ifanc, ynghylch rhoi rhybuddiadau a rhybuddiadau amodol i bobl ifanc ac ynghylch gorchmynion atgyfeirio.
  - Mae Rhan 3 ac Atodlenni 5 i 8 yn gwneud darpariaeth ynghylch llysoedd a thribiwnlysoedd, gan gynnwys darpariaethau sy'n creu gweithdrefn newydd i'w defnyddio mewn achosion troseddol yn y llysoedd ynadon o dan amgylchiadau penodol, darpariaeth ynghylch adennill costau'r llysoedd troseddol oddi ar droseddwyr, ynghylch apelau a chostau mewn achosion sifil ac ynghylch dirmyg llys a rheithgorau.
  - Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau lle caniateir i'r Uchel Lys a'r Tribiwnlys Uchaf wrthod rhyddhad mewn adolygiad barnwrol ac ynghylch cyllid a chostau mewn perthynas ag achosion o'r fath.

### **Y Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

5. Y diwygiadau a arweiniodd at y Memorandwm blaenorol oedd y rheini yn yr hyn a oedd ar y pryd yn gymal 12 newydd ac yn Atodlen 1 newydd, a fewnosodwyd i'r Bil ar 6 Mai. Dyma'r darpariaethau yr effeithiwyd arnynt gan y diwygiadau hynny:
  - Adran 287 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref");

- Adran 288 o'r Ddeddf honno;
- Adran 63 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("y Ddeddf Adeiladau Rhestredig");
- Adran 22 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 ("y Ddeddf Sylweddau Peryglus"); ac
- Adran 113 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol").

5A. Ers i'r Memorandwm blaenorol gael ei osod, tynnwyd y cymal 12 newydd a'r Atodlen 1 newydd a fewnosodwyd i'r Memorandwm hwnnw, yn ôl. Er hynny, dylid nodi na ddilëwyd y diwygiadau i'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn y paragraff uchod ac a ddisgrifir yn y cymal hwnnw a'r Atodlen honno. Yn hytrach, mae'r diwygiadau hynny wedi'i hailddatgan ochr yn ochr â diwygiadau mwy diweddar yn y cymal 52 newydd ac yn yr Atodlen 3 newydd, a gyflwynwyd ar 12 Mehefin.

5B. Mae'r diwygiadau diweddaraf hynny i'r Bil, a gyflwynwyd ers y Memorandwm blaenorol, hefyd yn cynnig diwygiadau i'r darpariaethau a ganlyn:

- Adran 284 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref; ac
- Adran 62 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig

6. Mae'r holl ddarpariaethau a amlinellir uchod yn gymwys o ran Cymru. Ceir disgrifiad byr o bob un o'r darpariaethau hyn yn y paragraffau a ganlyn. Mae pob her o'r math a ddisgrifir yn y paragraffau hyn yn cael ei dwyn gan geisydd yn yr Uchel Lys. Ar hyn o bryd, does dim gofyniad bod rhaid cael caniatâd yr Uchel Lys cyn i her o'r fath gael ei gwneud.

#### *Adran 284 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref*

6A. Mae adran 284 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn darparu na cheir cwestiynu dilysrwydd y gorchmynion, y penderfyniadau na'r cyfarwyddydau y cyfeirir atynt yn adran 284(1)-(3) mewn unrhyw achosion cyfreithiol o gwbl, ac eithrio i'r graddau y darperir ar gyfer hynny mewn man arall yn Rhan 12 o'r Ddeddf.

#### *Adran 287 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref*

7. Mae adran 287 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn rhagnodi'r unig ffordd y gall unrhyw berson a dramgwyddir gan y penderfyniad ar gynllun datblygu, cynllun neu orchymyn o'r fath amau dilysrwydd cynlluniau datblygu a chynlluniau a gorchmynion penodol y cyfeirir atynt yn adrannau 247, 248, 249, 251, 257, 258 neu 277 o'r Ddeddf honno.

#### *Adran 288 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref*

8. Mae adran 288 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn rhagnodi'r unig ffordd y gall unrhyw berson a dramgwyddir gan orchymyn neu gam o'r fath, herio dilysrwydd y gorchmynion a grybwyllir yn adran 284(2) o'r

Ddeddf honno, a'r camau a gymerir gan Weinidogion Cymru ac y cyfeirir atynt yn adran 284(3) o'r Ddeddf honno.

*Adran 62 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig*

8A. Ac eithrio fel y darperir ar gyfer hynny gan adran 63 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, mae adran 62 yn atal y gorchmynion a'r penderfyniadau y cyfeirir atynt yn adrannau 62(1)(a) a (b) o'r Ddeddf honno, rhag cael eu cwestiynu mewn unrhyw achosion llys.

*Adran 63 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig*

9. Mae adran 63 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig yn rhagnodi'r unig ffordd y gall unrhyw berson a dramgwyddir gan orchymyn neu benderfyniad o'r fath herio dilysrwydd y gorchmynion, y penderfyniadau a'r cyfarwyddyd y cyfeirir atynt yn adran 62(1) o'r Ddeddf honno.

*Adran 22 o'r Ddeddf Sylweddau Peryglus*

10. Mae adran 22 o'r Ddeddf Sylweddau Peryglus yn rhagnodi'r unig ffordd y gall unrhyw berson a dramgwyddir gan benderfyniad o'r fath herio penderfyniadau a gymerir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 20 neu 21 o'r Ddeddf honno.

*Adran 113 o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol*

11. Mae adran 113 o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn rhagnodi'r unig ffordd y gall unrhyw berson a dramgwyddir gan strategaeth, cynllun neu ddogfen o'r fath herio dilysrwydd unrhyw strategaeth, cynllun neu ddogfen y cyfeirir atynt yn adran 113(1) o'r Ddeddf honno.

*Effaith y diwygiadau a gynigir gan y Bil*

12. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig, drwy'r Atodlen newydd, yn cynnig diwygio'r adrannau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 7, 8, 9, 10 ac 11 uchod fel y maent yn gymwys o ran Cymru, ochr yn ochr â newidiadau cyfatebol i'r adrannau hynny fel y maent yn gymwys o ran Lloegr. Effaith gyffredinol y diwygiadau hynny yw na chaniateir cais o dan yr adrannau hynny heb gael caniatâd yr Uchel Lys.

13. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys gofyniad bod rhaid i gais o'r fath am ganiatâd gael ei wneud i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos ar ôl dyddiad a nodir ar gyfer pob gorchymyn, penderfyniad, cam, etc – er enghraifft y dyddiad y cadarnheir gorchymyn neu y mae gorchymyn yn dod yn effeithiol, neu'r dyddiad y cymerir cam neu benderfyniad.

14. Yn ychwanegol, wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd, cynigir y caniateir i'r Uchel Lys (yn unol ag amodau) fynd ati drwy orchymyn interim i atal gweithredu'r gorchymyn, y penderfyniad neu'r cam etc, y mae'r her arfaethedig yn ymwneud ag ef hyd nes y ceir y penderfyniad terfynol

ynghylch a ddylid rhoi caniatâd ai peidio; neu, os rhoddir caniatâd, hyd nes y ceir penderfyniad terfynol ar yr achos.

- 14A. Yn ystod y cyfnod ar ôl i'r Memorandwm blaenorol gael ei osod, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cynnig diwygiadau pellach i'r darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraffau 8 a 9 uchod, yn ychwanegol i'r diwygiadau i'r darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraffau 6A ac 8A uchod.
- 14B. Effaith y diwygiadau hynny, gyda'i gilydd, yw y caiff person a dramgwyddir gan orchymyn costau a wneir o dan adran 250(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i cymhwysir gan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref neu'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig) mewn cysylltiad â gorchymyn neu achos a grybwyllir yn adran 284(2) neu 284(3) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, neu mewn cysylltiad ag unrhyw orchymyn neu benderfyniad a grybwyllir yn adran 62(1)(1) neu (b) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, herio dilysrwydd y cyfryw gostau yn yr Uchel Lys.
- 14C. Er hynny, dylid nodi unwaith eto fod yn rhaid cael caniatâd yr Uchel Lys yn gyntaf cyn dwyn her o'r fath. Dylid nodi hefyd na cheir cwestiynu dilysrwydd y cyfryw orchymyn costau mewn unrhyw achosion llys o gwbl.
- 14D. Mae'r cynigion hyn, yn yr un modd, hefyd yn cynnwys gofyniad bod yn rhaid gwneud cais i gael caniatâd i herio dilysrwydd y gorchymyn costau i'r Uchel Lys ymhen cyfnod o chwe wythnos, ac maent hefyd yn galluogi'r Uchel Lys, drwy gyfrwng gorchymyn interim, i atal gweithredu'r gorchymyn costau o dan sylw hyd nes i'r llys benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ai peidio, neu, os rhoddir y caniatâd hwnnw, hyd nes y penderfynir yn derfynol ar yr achos.
15. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y diwygiadau arfaethedig a ddisgrifir ym mharagraffau 12-14D uchod i'r darpariaethau hynny y cyfeirir atynt ym mharagraffau 5-11 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y'i nodir ym mharagraff 18 (cynllunio gwlad a thref) yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol hefyd o ran 'sylweddau peryglus' a 'phriffyrdd' yn rhinwedd y Rhan honno o'r Atodlen.

### **Manteision defnyddio'r Bil hwn**

16. Mae'r newidiadau arfaethedig yn yr Atodlen newydd yn ffordd bragmatig o leihau'r effaith andwyol a gaiff heriau annheilwng ar y system gynllunio. Gan hynny, bernir bod y cynigion yn ddymunol, a bod cyflwyno'r newidiadau a nodwyd, fel y maent yn gymwys o ran Cymru yr un pryd ag y cânt eu cyflwyno ar gyfer Lloegr yn osgoi'r risg o greu dryswch ac yn caniatáu dull cyson o weithredu.
17. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn yn Senedd y Deyrnas Unedig gan mai dyna'r dull deddfu

mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys o ran Cymru.

### **Y goblygiadau ariannol**

18. Ni ddisgwylir goblygiadau ariannol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn sgil y newidiadau a nodwyd uchod.

**Carl Sargeant AC**  
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**  
**Mehefin 2014**